CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 15ed CHWEFROR 2022

PRESENNOL:
Dim Cyfarfod wyneb yn wyneb oherwydd Coronafeirws. (Y Clerc mewn cysylltiad a`r Cadeirydd a`r Cynghorwyr trwy ebost neu ffon.)

YMDDIHEURIADAU:

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB.

CAEL COFNODION 18ed IONAWR 2022 YN GYWIR.

Ni chafwyd ymateb gan Cyng W R Parry, E D Owen, E W Roberts.

MATERION YN CODI O`R COFNODION.
Ni chymerodd Cyng J E Lewis unrhyw rhan yn cais Maes Meillion, Bodffordd.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. FPL/2021/341. Cais llawn ar gyfer newid defnydd anecs anabl i llety gwyliau hunangynghwysol yn:-
   Castell, Tynlon.
   Nid oedd gwrthwynebiad.
   Cynnig J Evans, eilio R M Roberts.
   Un peth i godi oedd y Cyngor Sir wedi rhoi caniatad cyn y 21 diwrnod am sylwadau. Y Clerc wedi cysylltu.

PENDERFYNIADAU.

2. Cwynion. Tor Rheolaeth Colette Redfern.
   Coedmor, Tynlon. Garej Ddwbl. Y caniatad wedi ei rhoi ers 2018. (Mae yn anodd gwybod mae cymaint o adeiladu Garejis wedi bod yma)

   Rhyd Fawr, Trefor. Agoriad Newydd.
   Nid oes agoriad newydd wedi ei agor yma, ond wedi ei ledu. Y cwyn oedd y cerrig mawr gwynion a bolards ar y ffin. Mae yn gofyn i Adran y Priffyrdd gael golwg i edrych a ydynt yn gyfreithlon.

   Rhyd Caradog. Llandrygarn.
   Mae gweithgareddau yn cymryd lle gan berchnogion newydd. Bydd angen caniatad cynllunio. Rhaid cadw golwg.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. Swyddog Polisi Rhian W Jones.
   Sesiynau briffio arlein. Byddwch yn Gynghorydd. Etholiadau Mai 2022.
   CarysBullock@anglesey.gov.ukZoom.
   Cyfle i pawb sydd a diddordeb.

4. Uwch Beiriannydd Traffig a Pharcio. Alun Roberts.
   Ymateb i Mrs Julia Oldfield, Bryn Drain, Llandrygarn (Lon Capel Seion)

Mae mewn cyflwr drwg dim lle i basio a`r tramwy yn mynd i`r ffos. Mae arwyddbost yn ben y lon "Dim yn Addas i Dramwy trwm"
Mae y Cyngor Sir yn gwrthod gwneud dim maen`t yn dweud bod ormod o gost a dim arian ar gael. (£4,000 / £5,000)
A ydyw yn bosib i`r Cyngor Cymdeithas helpu? Mae yn amlwg fod y Cynghorwyr Sirol yn troi ei cefnau.
Bu Cyng D T Roberts mewn cysylltiad a Gwilym Edwards Cae`r Goll a dywedodd ei fod yn tynnu rhywun yn amal o`r ffos. Wedi cael golwg o`r lon gwelwyd fod dau fan pasio yma a`r unig beth fuasai angen ei wneud i`w llenwi a cerrig i gael cledwch. Ni fuasai hyn yn gost aruthrol.
Y Clerc yn anfon ebost i Adran Priffyrdd y Cyngor Sir.

5. Swyddog Etholiad. H A Hughes.
Etholiadau Cyngor Tref / Chymuned a Cyngor Sir 5 Mai 2022.
Mae`n bwysig bod y Cyngor yn ymwybodol o hyd a bydd angen sicrhau bod Cyllid digonol i dalu cost lawn unrhyw etholiad Cyngor Tref / Chymuned boed ymgeiswyr yn yr etholiad ai peidio. Costau amcannol fesul Cymuned neu Ward Gymunedol
Hyd at 1,000 o etholwyr £2,000.
Hyd at 2,000 o etholwyr £2,500.
Hyd at 3,000 o etholwyr £3,500.
Nodwch mae ffigyrau bras yw rhain.
Os fydd yr etholiad yn Ward y Gymuned / Tref yn ddi-wrthwynebiad fe godi`r tal o gwmpas £135.00
Mawr obeithio na fydd etholiad Cyngor Cymuned.

GOHEBIAETH (ARALL)

6. John Rowlands 9, Maes yr Orsedd, Bodffordd.
Yn ddiweddar wedi cael dadleniad o wybodaeth gan Cyfoedd Naturiol Cymru ynghlyn ei bwriad i ddatblygu cyfleusterau yno ac o gwmpas Cronfa Ddwr Cefni.
Y Clerc wedi hysbysu Mr Rowlands fod Cefni yn Plwyf Llanddyfnan.

RHODDION.

7. Dim.

PLWYFOL.

8. Rhoddion.
(Er mwyn gwybodaeth gan Un Llais Cymru)
Mae gan y Cyngor neu Gynghorydd yr hawl i rhoi amod / au i unrhyw Gymdeithas, Mudiad, Elusen pan yn rhoi cyfraniad.
Os oes Cynnig ac Eilydd ac yn cael ei gario.

MATERION ARIANNOL:

9. Cyfrif Rhedegol £10,596.66
10. Mynwent Gymunedol £5,890.00.

TALIADAU:

11 Clerc £250.00.

Er nas oes cyfarfod wyneb yn wyneb yn bodoli mae yn rhaid dan rheol dalu y dyledion i gyd.

D Owen (Clerc)